Tymor yr Hydref

Adeiladau

Cysyniadau:	**Gwrando, gosod esiampl, penderfyniad, ymddiriedaeth.**
Amcan:	**Dangos pa mor bwysig ydi gosod sylfaen gadarn i'n bywyd.**
Cyfarpar:	**Lluniau o wahanol adeiladau.**

Cyflwyniad:

● Holi'r plant am wahanol adeiladau yn eu hardal.
Tai, ysgol, llyfrgell, meddygfa, ysbyty, banciau, fflatiau, siopau, eglwysi, capeli, mosg, synagog.

● Beth ydi pwrpas yr adeiladau hyn?
Adeiladau i fyw ynddyn nhw, adeiladau i ddysgu, adeiladau i'n gwella pan fyddwn yn sâl, adeiladau i gael bwyd, adeiladau i gael arian, adeiladau i addoli.

● Holi'r plant i ba adeiladau y byddan nhw'n mynd?

● Sut adeiladau ydyn nhw?
Disgrifio'r adeilad – y to, y waliau allanol, y drysau a'r ffenestri.
Yna disgrifio'r tu mewn, e.e. y llyfrgell yn llawn o lyfrau, yr archfarchnad yn llawn o fwydydd.

● Disgrifio'r neuadd neu'r ystafell ddosbarth – cyfeirio at bensaernïaeth yr ystafell: y nenfwd, ydi o'n isel; y waliau, pa mor drwchus; y ffenestri,

ai gwydr dwbl, ffenestri bach neu fawr? Faint o ddrysau?
Oes modd gwella ar bensaernïaeth yr ystafell?
Mwy o ffenestri, gostwng y nenfwd, mwy nag un drws?

● Beth ydi'r rhan bwysicaf o'r adeilad? Y to, y waliau?
Na, mae'r rhan bwysicaf o'r golwg. Dyma'r sylfaen.

● Mae'r adeilad i gyd wedi'i adeiladu ar sylfaen gadarn.
Dyma sy'n gwneud yr adeilad yn ddiogel.

Trafodaeth bellach:

● Fel y mae pob adeilad angen sylfeini cadarn mae angen sylfaen gadarn ar gyfer ein bywyd.

● Beth fyddai'n sylfaen dda i'n bywyd ni?

● Beth am ddysgu caru a derbyn pawb?
Ac o garu pawb yna mae'n rhaid eu helpu. Dim ots pwy ydyn nhw.

Stori:

Dywedodd Iesu stori wrth ei ffrindiau am ddau dŷ.

Wrth i'r bobl wrando ar eiriau Iesu, roedden nhw'n rhannu'n ddau grŵp. Roedd rhai'n awyddus iawn i glywed mwy, ac am wybod sut i ufuddhau i Dduw. Roedd eraill yn amheus, a hyd yn oed yn ddig wrth wrando arno'n dysgu. Roedd ei ddull o ddysgu mor wahanol i ffordd y bobl grefyddol, y Phariseaid. Felly dyma Iesu'n dweud stori wrthyn nhw.

'Os byddwch yn gwrando ac yn gwneud popeth rwy'n ei ddweud wrthoch chi, yna byddwch yn debyg i ddyn doeth a adeiladodd dŷ ar y graig. Cyn iddo ddechrau adeiladu, gwnaeth yn siŵr fod y tŷ wedi'i osod ar sylfeini cadarn. Pan ddechreuodd y glaw guro, a'r gwynt hyrddio o gwmpas, wnaeth y tŷ ddim syrthio. Arhosodd y tŷ'n solet a chadarn.

'Ond os na fyddwch chi'n cymryd sylw, ac yn gwrthod gwrando, byddwch yn debyg i ddyn ffôl a gododd ei dŷ ar dywod. Pan oedd y

gwynt yn hyrddio, a'r glaw yn pistyllio, syrthiodd y tŷ am nad oedd y sylfeini'n ddigon cadarn. Dymchwelodd y muriau, y to a'r drws a chollwyd popeth.

'Peidiwch â bod fel y dyn ffôl, yn edifar pan fydd yn rhy hwyr i newid pethau. Byddwch fel y dyn doeth; gwrandewch yn ofalus ac ewch ati i ddilyn fy nghyfarwyddiadau.'

Beibl Lliw Stori Duw tt. 233–234

Trafodaeth bellach:

- Pam na ddymchwelodd y tŷ a adeiladwyd ar y graig?

- Beth ddigwyddodd i'r tŷ a adeiladwyd ar y tywod?

- Pa un o'r dynion oedd wedi gwrando ar neges Iesu?

Dyfyniad o'r Beibl:

Am hynny, calonogwch eich gilydd, ac adeiladwch bob un ei gilydd.

1 Thesaloniaid 5:11 BCND

Emyn: Y dyn adeiladodd: Canu Clod 416

Munud i feddwl:

Addysg ydi'r sylfaen i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Myfyrdod/Gweddi:

Dowch i ni feddwl am y rhai rydyn ni'n eu caru.
Rhieni, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu.
Ffrindiau ac athrawon yn yr ysgol.
Cariad ydi'r sylfaen i adeiladu ein bywydau arno. Amen.